**Rhif: WG39751**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Canllawiau ar Bontio a Throsglwyddo

**Canllawiau Llywodraeth Cymru ar reolaeth ac atebolrwydd prosesau Pontio a Throsglwyddo mewn Gwasanaethau Gofal Iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc wrth iddynt dyfu a symud o ddefnyddio gwasanaethau plant i wasanaethau oedolion.**

Dyddiad cyhoeddi: 27 Ionawr 2020
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 20 Ebrill 2020

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar ganllawiau drafft Llywodraeth Cymru ar reolaeth ac atebolrwydd prosesau Pontio a Throsglwyddo mewn Gwasanaethau Gofal Iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc wrth iddynt dyfu a symud o ddefnyddio gwasanaethau plant i wasanaethau oedolion. |
| **Sut i ymateb** | Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 20 Ebrill 2020. Gallwch ymateb ar-lein, trwy e-bost neu drwy'r post.<br><br>**Ar-lein**<br>Dylech gwblhau'r holiadur ar-lein ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru:<br><br>**E-bost**<br>Dylech gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i: IechydPlant@llyw.cymru<br><br>**Post**<br>Dylech gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:<br><br>Iechyd Plant<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd gwahanol o'r ddogfen hon ar gael ar gais.** |
| **Manylion cyswllt** | Ar gyfer rhagor o wybodaeth:<br><br>Iechyd Plant<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: IechydPlant@llyw.cymru<br><br>ffôn: 03000 251172 |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer / Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cyflwyniad

Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar ganllawiau drafft Llywodraeth Cymru ar reolaeth ac atebolrwydd prosesau Pontio a Throsglwyddo mewn Gwasanaethau Gofal Iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc wrth iddynt dyfu a symud o ddefnyddio gwasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

## Cefndir

Mae’n bwysig iawn sicrhau bod y broses lle mae plant neu bobl ifanc yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn cael ei chydgysylltu’n effeithiol a bod defnyddwyr gwasanaethau yn dylanwadu ar y broses. Bydd y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru yn gwneud y broses yn fwy trylwyr ac yn hawdd i’w llywio.

Yn hytrach na defnyddio dull sy’n seiliedig ar oedran yn unig, mae’n rhaid i’r system ymateb i anghenion unigol y plentyn neu’r person ifanc. Mae profiad plentyn o dyfu’n oedolyn yn broses yn hytrach na digwyddiad, a gallai rychwantu ystod oedran eang.

Mae’r Canllawiau hyn yn canolbwyntio ar beth y mae’n rhaid i wasanaethau iechyd ei wneud i sicrhau bod proses effeithiol, wedi’i strwythuro’n dda ar waith er mwyn diwallu anghenion gofal iechyd integredig plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc, hyrwyddo ansawdd a diogelwch, mynediad, ymreolaeth a gofal effeithiol ar gyfer canlyniadau iechyd gwell.

**Canllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli, trosglwyddo ac atebolrwydd Gwasanaethau Gofal Iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc wrth iddynt bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion - 'Canllawiau Pontio a Throsglwyddo'**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae darparu gofal iechyd priodol ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed, a throsglwyddo gofal ac atebolrwydd o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, wedi'u nodi'n flaenoriaeth allweddol ar gyfer gwelliant. Nodwyd hyn gan adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn 2014[1], a gan Gomisiynydd Plant Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf[2], a bu galw am 'ofal sy'n pontio' o ansawdd da ar gyfer y grŵp hwn o'r boblogaeth gan wasanaethau iechyd o bob math.

1.2 Dylai gwasanaethau iechyd o bob math ddefnyddio canllawiau NICE 2016[3] ar bontio. Dylai Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ystyried yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yng nghanllaw NICE a'r safon ansawdd gysylltiedig[4] er mwyn helpu pobl ifanc a'u gofalwyr i gael profiad gwell o bontio a throsglwyddo trwy wella sut mae'r broses yn cael ei chynllunio a'i chyflawni.

1.3 Nod y canllawiau hyn yw helpu i gyflwyno canllawiau NICE yn gyson ledled Cymru. Maent yn darparu cyfeiriad a thempled safonol fel bod byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru yn gallu datblygu canllawiau lleol cyson. Dylai dogfennau'r canllawiau hyn fod yn sail i brosesau, gweithdrefnau a threfniadau gweinyddol a llywodraethu cadarn, y mae disgwyl i sefydliadau gydymffurfio â nhw er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth yn amharu ar ofal iechyd neu nad oes unrhyw fylchau mewn darpariaeth gwasanaethau.

1.4 Mae'r egwyddorion sylfaenol yn seiliedig ar ofal darbodus, integredig, o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n golygu bod pawb (waeth beth yw eu hoedran, eu hanabledd neu eu nodweddion gwarchodedig) yn gallu cyrchu gwasanaeth addas sy'n cynnig y sgiliau a'r arbenigedd cywir ac sy'n cydymffurfio â Safonau Gofal Iechyd disgwyliedig GIG Cymru. Ategir y canllawiau hyn gan ddull sy'n seiliedig ar hawliau dynol, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r fframwaith strategol a deddfwriaethol wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

---

[1] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s34408/Adroddiad%20Tachwedd%202014.pdf
[2] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/Adroddiad-Blynyddol-2018-19.pdf
[3] https://www.nice.org.uk/guidance/ng43
[4] https://www.nice.org.uk/guidance/QS140

1.5 Yn hytrach na defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar oedran yn unig, mae'n rhaid i'r system ymateb i anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc. Mae profiad plentyn o droi'n oedolyn yn broses yn hytrach na digwyddiad, a gall rychwantu ystod oedran eang. Mae person ifanc 16 oed yn gallu cydsynio i ofal iechyd drosto ei hun, ac mae person ifanc 18 oed yn troi'n oedolyn o safbwynt pob agwedd gyfreithiol. Ond gall unigolyn o dan 16 oed fod yn gymwys yn ôl safon Gillick, gan gydsynio i driniaeth feddygol mewn amrywiaeth o amgylchiadau.

1.6 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd diogelu ar staff gofal iechyd ar gyfer claf neu gleient o unrhyw oedran. Mae'n rhaid defnyddio canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plentyn neu oedolyn mewn ffordd briodol, gan gynnwys ystyried gweithdrefnau diogelu Cymru gyfan[5]. Mae'n rhaid i staff fod â'r hyfforddiant a'r sgiliau i wasanaethu'r grŵp oedran hwn yn ddiogel ac yn effeithiol.

1.7 Mae gan Fyrddau Iechyd ddyletswydd i ddarparu gofal iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaeth, waeth a ydynt yn darparu gofal oddi mewn i'w ffiniau eu hunain, neu'n ei gomisiynu gan Fyrddau Iechyd neu Ymddiriedolaethau eraill, y tu mewn neu'r tu allan i Gymru, er mwyn sicrhau safonau gofal cyfatebol.

## 2 Cydsyniad a galluedd meddyliol ar gyfer trosglwyddo gofal

2.1 Gall pobl ifanc 16 oed gydsynio i ofal iechyd. Pan fyddant yn 16 oed, mae'n rhaid iddynt gyfrannu'n uniongyrchol at benderfyniadau yn ymwneud â'u gofal iechyd, yn enwedig y penderfyniad ynglŷn â pha wasanaeth y dylent ei ddefnyddio, os oes dewis rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

2.2 Gall plant o dan 16 oed gydsynio i dderbyn neu wrthod gofal iechyd, hyd yn oed os yw hynny'n mynd yn groes i farn eu rhieni, os oes modd dangos eu bod yn gymwys yn ôl safon Gillick. Dylai unrhyw asesiad o fod yn gymwys yn ôl safon Gillick gael ei nodi yn y cofnod gofal iechyd.[6]

2.3 Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn berthnasol gan amlaf i bobl ifanc sy'n troi'n 16 oed. Os credir nad oes gan berson ifanc alluedd i wneud penderfyniad penodol ar ôl troi'n 16 oed, dylid ei asesu o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol er mwyn penderfynu beth yw ei fudd pennaf a beth yw'r camau gweithredu priodol. Os yw'r trefniadau gofal a thriniaeth yn arwain at amddifadu person ifanc o'i ryddid, mae angen dilyn y Safonau Amddifadu o Ryddid neu'r Safonau Gwarchod Rhyddid perthnasol, neu weithdrefnau eraill, er mwyn diogelu llesiant y person ifanc yn gyfreithiol a rhoi sylw dyledus i'w hawliau dynol.

2.4 Dylai Pontio a Throsglwyddo gofal osgoi sefyllfa lle mae'r person ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei wthio i ddefnyddio gwasanaethau anghyfarwydd heb unrhyw gymorth. Mae angen cynnig dilyniant o ran gofal yn ystod cyfnod o bontio a throsglwyddo er mwyn sicrhau bod unigolion yn gallu meithrin perthynas â'r clinigwyr a fydd yn parhau i ddarparu gofal iddynt.

---

[5] http://www.plantyngnghymru.org.uk/polisi-document/canllawiau-amddiffyn-plant-cymru-gyfan-2008/
[6] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/page/65162

2.5 Mae'n rhaid i wasanaethau gasglu data priodol ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar drefniadau pontio a throsglwyddo a dogfennau ar gyfer cydsynio ac asesiadau galluedd meddyliol, gan gynnwys bod yn gymwys yn ôl safon Gillick, er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaethau hyn.

## 3 Egwyddorion Gweithredu

3.1 Bydd disgwyl i Fyrddau Iechyd nodi arweinydd Pontio a Throsglwyddo penodol (Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Cyfarwyddwr Nyrsio neu Gyfarwyddwr Therapïau) sy'n gyfrifol am sicrhau bod y canllawiau pontio a throsglwyddo yn cael eu gweithredu ar draws gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, ac yn gyfrifol am ansawdd y gwasanaethau. Yn ogystal, bydd yr arweinydd Pontio a Throsglwyddo penodol yn gyfrifol am gydweithio ag asiantaethau statudol eraill er mwyn sicrhau bod mecanweithiau ar waith fel bod pobl ifanc a'u teuluoedd ag anghenion cymhleth yn cael profiad pontio cydgysylltiedig.

3.2 Dylai byrddau iechyd sicrhau bod adborth gan y person ifanc yn cael ei gasglu a bod ei lais yn ganolog i'r broses ofal. Dylid sicrhau dilyniant o ran gofal ar draws yr holl wasanaethau.

3.3 Wrth weithredu'r canllawiau hyn, dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ddefnyddio 5 egwyddor y dull gweithredu hawliau plant sydd wedi'u nodi gan y Comisiynydd Plant:

1. Gwreiddio hawliau:

   Sicrhau bod cysylltiad rhwng polisïau a hawliau plant a hawliau dynol eraill priodol fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae hyn yn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn y neges bod ganddynt hawl i dderbyn y gwasanaethau hyn a bod ganddynt hawl i ofal iechyd, i leisio barn, i dderbyn cymorth i wireddu eu potensial ac ati, gan osgoi dull diffyg.

2. Cydraddoldeb a gwahaniaethu:

   Dylai byrddau iechyd/ymddiriedolaethau ystyried yn ofalus pa grwpiau o blant a allai wynebu mwy o rwystrau i ddefnyddio gwasanaethau nag eraill, gan gyflwyno mesurau i leihau'r rhwystrau. Hefyd, dylent ystyried a yw plant yn gyffredinol yn dioddef gwahaniaethu, e.e. trwy beidio darparu llwybr clir ar gyfer pobl ifanc 16 neu 17 oed y mae angen gofal eilaidd arnynt am y tro cyntaf, neu sydd angen gofal mewn argyfwng.

3. Grymuso:

   Dylid defnyddio dulliau hygyrch o hysbysu plant am eu hawliau yn ymwneud â phontio a throsglwyddo gofal. Dylid sicrhau bod eiriolwr ar gael iddynt os oes angen.

4. Cyfranogiad:

   Dylai plant a phobl ifanc allu cymryd rhan mewn penderfyniadau yn ymwneud â’u gofal eu hunain, fel y trafodir gydol y canllawiau hyn. Hefyd, dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gynnwys grwpiau o bobl ifanc i gynghori ar drefniadau i weithredu’r canllawiau hyn gan ddefnyddio Safonau Cyfranogi Cymru.

5. Atebolrwydd:

   Dylai byrddau iechyd/ymddiriedolaethau sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i ymateb i unrhyw gwynion gan bobl ifanc am wasanaethau pontio a throsglwyddo. Hefyd, dylent roi gwybod i bobl ifanc yn eu hardal am eu cynnydd tuag at weithredu trefniadau pontio a throsglwyddo, ac os ydynt wedi ymgynghori â phobl ifanc, dylent nodi sut mae eu safbwyntiau wedi’u defnyddio i ddatblygu gwasanaethau.

Wrth ddatblygu trefniadau pontio a throsglwyddo lleol, dylai byrddau iechyd ddefnyddio’r egwyddorion canlynol wrth ymdrin ag unigolion – gan ystyried ym mhob achos y plentyn, y person ifanc neu’r oedolyn ifanc, a’i deulu neu ei ofalwyr, yn amodol ar ddymuniadau’r unigolyn cymwys. (gweler Bocs 1)

| **Bocs 1: Egwyddorion sy’n sylfaen i ddarpariaeth gofal unigol ar gyfer pontio a throsglwyddo rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion**<br>(ym mhob achos mae’n rhaid ystyried y plentyn, y person ifanc neu’r oedolyn ifanc, a’i deulu neu ei ofalwyr, yn amodol ar ddymuniadau’r unigolyn cymwys) |
|---|
| 1. Sicrhau bod anghenion a dymuniadau’r unigolyn yn ganolog i’r gwasanaeth, bod y gofal yn ddiogel ac yn ymatebol, a bod y broses drosglwyddo wedi’i rheoli’n dda.<br><br>2. Hyrwyddo mynediad cynnar a chyfleus i ofal a chymorth, yn enwedig ar gyfer pobl mewn argyfwng, pobl ag anabledd neu bobl o dan anfantais.<br><br>3. Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau statudol megis gofal cymdeithasol, addysg, cyfiawnder troseddol ac asiantaethau gwirfoddol os oes angen cydweithredu er mwyn diwallu anghenion.<br><br>4. Sicrhau mynediad at wybodaeth a dewisiadau ar gyfer rhoi cydsyniad dilys, a Gweithio i Wella, gan gynnwys cymorth eiriolaeth os oes angen i wneud cwyn neu sylw. Dylai byrddau iechyd sicrhau eu bod yn gwrando ar lais y person ifanc a’i fod yn ganolog i’r broses ofal.<br><br>5. Datblygu strwythurau cynllunio, monitro a llywodraethu cadarn i gynnig sicrwydd trwy drefniadau adrodd, gan sicrhau adborth sy’n casglu llais a safbwyntiau’r unigolyn mewn fformat addas. |

Mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi hawliau plant a phobl ifanc o dan CCUHP i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (erthygl 12), derbyn gwybodaeth o ansawdd da (erthygl 13), cael eu hamddiffyn yn erbyn niwed (erthygl 19), derbyn cymorth ychwanegol os ydynt yn anabl (erthygl 23), derbyn gofal iechyd o ansawdd da (erthygl 24), ac i oedolion weithredu er budd pennaf y plentyn (erthygl 3).

## 4 Cyn Pontio a Throsglwyddo Gofal:

### Nodi'r oedran priodol i ddechrau cynllunio ar gyfer pontio a throsglwyddo gofal o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion

4.1 Dylai pontio a throsglwyddo gofal iechyd yn effeithiol fod yn broses sy'n cael ei rhannu a'i chyd-gynhyrchu rhwng defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol, eu teuluoedd ac unrhyw wasanaethau statudol perthnasol eraill fel Gwasanaethau Cymdeithasol neu Addysg.

4.2 Os yw person ifanc yn 13 neu'n 14 oed, dylai'r Bwrdd Iechyd nodi ei anghenion gofal iechyd a'i ddymuniadau ar gyfer cymorth er mwyn cynllunio'r cyfnod pontio a throsglwyddo gofal rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion. Mae angen gwneud penderfyniad gweithredol ynglŷn â'r gwasanaeth gofal iechyd priodol yn y dyfodol mewn partneriaeth â'r person ifanc a'i deulu yn gynnar yn y broses.

4.3 Ni ddylid gwadu mynediad i wasanaeth priodol a diogel o ansawdd da i unrhyw berson ifanc ar sail oedran.

4.4 Dylai'r broses o gynllunio ar gyfer pontio a throsglwyddo gofal fod yn seiliedig ar anghenion a dymuniadau'r person ifanc, yn hytrach nag ar oedran mympwyol. Bydd gan wasanaethau penodol drothwyon oedran gwahanol sy'n seiliedig ar fframweithiau cyfreithiol yn aml. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd angen cysoni'r rhain trwy gytundeb ar gyfer unigolyn sydd angen nifer o wasanaethau.

4.5 Mae angen i wasanaethau gydweithio yn ystod y cyfnod yn arwain at bontio a throsglwyddo gofal, ac ar ôl hynny, gan bwysleisio dilyniant o ran gofal ac atebolrwydd clinigol clir.

4.6 Dylai gwasanaethau ddefnyddio dull gwneud penderfyniadau clir o reoli cais unigolyn am drosglwyddo i wasanaeth oedolion. Mae'n rhaid rhoi rhesymau os yw cais yn cael ei wrthod.

4.7 Mae'n rhaid cynnig cynllun i fenywod ifanc a allai fynd yn feichiog, a hynny ar adeg briodol, gan egluro cyngor ar atal cenhedlu, gofal cyn beichiogrwydd, a sut y bydd unrhyw gyflwr hirdymor a gofal mamolaeth/obstetreg yn cael eu hintegreiddio.

### Person ifanc sy'n mynd i mewn i'r system gofal iechyd am y tro cyntaf yn 16 neu'n 17 oed

4.8 Gall person ifanc sy'n cael ei atgyfeirio i unrhyw wasanaeth eilaidd neu therapi arbenigol (fel gastroenteroleg, cardioleg, poen cronig, orthopedig) am y tro cyntaf yn 16 neu'n 17 oed dderbyn gofal gan arbenigwyr pediatrig neu arbenigwyr oedolion, neu gyfuniad o'r ddau, gan ddibynnu ar drefniadau lleol.

4.9 Mae angen llwybr clir i bobl ifanc 16 neu 17 oed ar gyfer derbyniadau acíwt a derbyniadau argyfwng er mwyn sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc o'r oedran hwn yn wynebu oedi neu ddryswch yn ymwneud â'i ofal, gan gynnwys ystyried lleoliad priodol. Ni ddylid atal mynediad i wasanaeth priodol, amserol ar gyfer y person ifanc oherwydd ei oedran, ac ni ddylai wynebu anfantais trwy symud o restr aros i blant i'r rhestr aros i oedolion.

4.10 Bydd y gweithiwr proffesiynol sy'n gwneud yr atgyfeiriad yn parhau i fod â chyfrifoldeb clinigol yn unol â chanllawiau atebolrwydd lleol nes bod y trefniadau ar gyfer pontio a throsglwyddo gofal yn cael eu cytuno'n ffurfiol, gan sicrhau bod y person ifanc yn gwybod pa glinigwr sy'n gyfrifol am ei ofal.

4.11 Dylai timau plant ac oedolion gydweithio i sicrhau cysondeb o ran gofal a'r gwasanaethau gorau ar gyfer y person ifanc. Os oes unrhyw glinigwr yn teimlo ei fod yn ymarfer y tu allan i'w gymhwysedd oherwydd oedran y claf, mae'n rhaid iddo uwchgyfeirio'r mater trwy ei gynllun atebolrwydd clinigol.

**Hunanreoli**

4.12 Mae angen cynnig cymorth fel bod y person ifanc yn gallu hunanreoli ei gyflwr/cyflyrau, yn ogystal â'i deulu fel sy'n briodol. Mae'r broses o hyrwyddo arferion grymuso, ymreolaeth a sgiliau yn gallu cynorthwyo'r unigolyn i ddeall a rheoli ei gyflwr, gan osod y sylfeini i symud yn llwyddiannus tuag at wasanaethau oedolion.

**Gweithiwr penodol**

4.13 Os oes angen, dylid nodi gweithiwr penodol a fydd yn gweithio gyda'r person ifanc a'i deulu i helpu i gydgysylltu gwasanaethau.

4.14 Gallai'r gweithiwr penodol fod yn un o'r canlynol, gan ddibynnu ar anghenion y person ifanc:

- Nyrs
- Gweithiwr iechyd proffesiynol cysylltiedig
- Y Meddyg Teulu penodol
- Eiriolwr iechyd

4.15 Bydd y gweithiwr penodol yn helpu'r person ifanc i gydgysylltu cynlluniau a gwasanaethau gofal iechyd yn ystod y cyfnod o bontio a throsglwyddo atebolrwydd clinigol ar gyfer gofal. Bydd y gweithiwr penodol yn mynd ati i gydgysylltu crynodeb o'r holl anghenion iechyd, yn enwedig os oes gan yr unigolyn anghenion iechyd cymhleth.

4.16 Bydd y gweithiwr penodol yn hyrwyddo dymuniadau a safbwyntiau'r person ifanc er mwyn sicrhau bod ganddo ef a'i deulu fynediad priodol at yr holl wasanaethau gofal iechyd gofynnol a gwasanaethau ehangach fel sy'n briodol. Bydd yn helpu'r person ifanc i roi adborth ar ei brofiad.

4.17 Os yw asiantaethau eraill yn ymwneud â'r achos, mae angen nodi gweithiwr 'allweddol' o'r awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd er mwyn cydlynu gwaith yr asiantaethau.

**Cynllunio ar gyfer pontio a throsglwyddo**

4.18 Bydd Cynllun Pontio a Throsglwyddo yn cael ei lunio gyda'r person ifanc, ei rieni neu ei ofalwyr a gweithwyr proffesiynol (gyda chymorth y gweithiwr penodol fel sy'n briodol) ar gyfer y cyfnod pontio a throsglwyddo gofal gan ddefnyddio adnoddau fel '*Un dau tri, i ffwrdd â ni'*[7]. Bydd y person ifanc yn cadw'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo fel 'pasbort' a bydd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig iddo, y gofal a'r driniaeth sydd eu hangen a'r llinell amser a'r canlyniadau iechyd a llesiant disgwyliedig. Dylai'r person ifanc dderbyn gwybodaeth am ei gyflwr a'r cynllun gofal mewn fformat sy'n ddealladwy iddo.

4.19 Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnwys y person ifanc a'i gynrychiolwyr a bod yn ymatebol i'w ddymuniadau, ei deimladau a'i anghenion wrth gynllunio a darparu gofal sy'n pontio i wasanaethau oedolion.

4.20 Dylai'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo gael ei gysylltu neu ei integreiddio â chynlluniau gofal eraill (e.e. y Cynllun Datblygu Unigol, y Cynllun Gofal Parhaus, y Cynllun Gofal a Thriniaeth, y Cynllun Gofal a Chymorth). Mae angen adolygu a diweddaru'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo ar adegau priodol.

4.21 Mae'n rhaid cynnig dewisiadau i bobl ifanc â chyflyrau hirdymor sydd wedi dechrau yn ystod plentyndod ynglŷn â throsglwyddo gofal. Mae angen gwneud hyn ar adeg a benderfynir gan eu hanghenion cyffredinol, gan gynnwys unrhyw ganllawiau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r cyflwr (er enghraifft ar gyfer diabetes, asthma, epilepsi, iechyd meddwl, parlys yr ymennydd, nychdod cyhyrol Duchenne, niwed trawmatig i'r ymennydd).

4.22 Ni ddylai'r person ifanc orfod ailadrodd ei stori yn ddiangen. Dylid ei annog i gyfrannu at ddatblygu ei wybodaeth gofal iechyd ei hun ar gyfer y Cynllun Pontio a Throsglwyddo a'r 'Pasbort' er mwyn hwyluso'r broses pontio a throsglwyddo gofal. Gweler yr enghraifft yn Atodiad 3.

4.23 Dylai gwybodaeth ar gyfer y person ifanc a'i deulu fod ar gael yn hwylus mewn fformat hygyrch er mwyn annog eu hymgysylltiad, egluro'r broses, eu hawliau a'r hyn y gallant ei ddisgwyl pan fydd eu gofal yn cael ei drosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Ym mhob achos, mae'n rhaid ysgrifennu a rhannu cynllun ar gyfer trosglwyddo gofal y person ifanc rhwng gwasanaethau.

4.24 Dylai'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo gael ei gefnogi gan systemau TG cyffredin er mwyn rhannu gwybodaeth trwy blatfformau ar-lein diogel, gan sicrhau cydsyniad priodol fel bod y wybodaeth yn hygyrch i bawb. Mae data hwn yn hanfodol ar gyfer parhau i fonitro a sicrhau ansawdd.

---

[7] https://www.uhs.nhs.uk/Ourservices/Childhealth/TransitiontoadultcareReadySteadyGo/Transitiontoadultcare.aspx

## 5 Adolygu'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo yn barod ar gyfer pen-blwydd person ifanc yn 16 oed

5.1 Mae person ifanc yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun am ofal iechyd pan fydd yn troi'n 16 oed, felly mae angen cynllunio adolygiad ar y cyd o'r cynllun gofal i baratoi ar gyfer ei ben-blwydd yn 16 oed. Dylai cynllunio ar gyfer pontio a throsglwyddo gofal fod wedi cychwyn yn gynt yn unol â threfniadau ar gyfer cyflyrau penodol.

5.2 Mae'r gweithiwr penodol yn gyfrifol am gynnal cyfarfod adolygu ar gyfer Cynllun Pontio a Throsglwyddo person ifanc sy'n troi'n 16 oed. Dylai mynychwyr y cyfarfod gynnwys y person ifanc a'i deulu os yw'n dymuno, eiriolwr, yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol o'r meysydd Gofal Sylfaenol, gwasanaethau meddygol, nyrsio a therapi i blant ac oedolion ac unrhyw unigolion arwyddocaol eraill sy'n helpu i ddarparu gofal.

5.3 Dylai'r agenda ar gyfer y cyfarfod adolygu gynnwys anghenion a dymuniadau'r person ifanc ar gyfer gofal iechyd, unrhyw faterion cyfreithiol, cymhwysedd meddyliol a ffiniau gwasanaethau a allai effeithio ar ansawdd neu fynediad i ofal iechyd, ac unrhyw effaith ar ganlyniadau iechyd y person ifanc.

5.4 Amcan y cyfarfod adolygu yw sicrhau bod y cynllun yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ei fod yn briodol yn glinigol, yn realistig, a'i fod yn bodloni dymuniadau a budd pennaf y person ifanc. Mae'n rhaid i'r Cynllun ddogfennu cyfrifoldebau clinigol parhaus gwasanaethau perthnasol ar gyfer gofal, amseriad a natur trosglwyddo a chydgysylltu clinigol (e.e. arweinydd clinigol, angen am glinigau ar y cyd, atgyfeiriad i wasanaethau ychwanegol, amseru a throsglwyddo ac ati).

5.5 Ar ôl i'r person ifanc, ei deulu, pob un o'r clinigwyr a phartïon perthnasol eraill gytuno ar y Cynllun Pontio a Throsglwyddo, dylai'r person ifanc ei gadw ac mae angen cadw copi yng nghofnod gofal iechyd y person ifanc.

## 6 Cwblhau trosglwyddiad o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion

6.1 Adeg rhyddhau unigolyn yn ffurfiol o unrhyw wasanaeth pediatrig, mae'n rhaid i'r holl glinigwyr pediatrig ddarparu crynodeb clinigol ysgrifenedig o anghenion iechyd, diagnosis/llunio, cynlluniau rheoli ac ymyraethau a argymhellir (meddyginiaeth, therapi, ymchwiliadau ac ati) fel rhan o'r broses drosglwyddo, er mwyn sicrhau bod y clinigwr/clinigwyr sy'n gyfrifol am wasanaethau oedolion yn gallu cynllunio cynnig gofal iechyd priodol. Mae angen rhoi copi o'r ddogfen hon i'r person ifanc a'i feddyg teulu.

6.2 Bydd y gweithiwr penodol yn cynnig cymorth i'r person ifanc yn ôl yr angen yn ystod y cyfnod trosglwyddo gofal. Gallai hyn gynnwys yr angen i'r person ifanc a'i deulu ymweld â chanolfan newydd er mwyn cyfarfod â'r tîm newydd, cymorth yn ystod yr apwyntiad cyntaf gyda'r clinigwr sy'n gyfrifol am wasanaethau oedolion, a gwybodaeth am gyfleusterau ar gyfer cleifion preswyl neu gleifion allanol fel sy'n briodol i'r cyflwr ac i anghenion yr unigolyn.

6.3 Dylai'r person ifanc aros o dan ofal gwasanaethau plant nes bod y broses bontio a throsglwyddo ffurfiol wedi'i chwblhau, sy'n digwydd pan fo'r person ifanc yn mynychu ymgynghoriad gyda gwasanaethau oedolion.

## 7 Ansawdd ac amgylchedd gwasanaethau

7.1 Dylai agweddau penodol ar ddiwylliant, amgylchedd a galluoedd gofal sy'n cael ei gynnig gan wasanaethau plant ac oedolion gynnwys y canlynol:

- Dylai lleoliadau fod yn briodol i amgylchiadau ac anghenion datblygiadol yr unigolyn.
- Dylai sgiliau, cyfarpar a chyfleusterau fod ar gael i blant ac oedolion, gan sicrhau eu bod yn briodol i'w hanghenion a'u dymuniadau clinigol unigol, eu maint corfforol a'u haeddfedrwydd, ac nad ydynt yn dibynnu ar eu hoedran yn unig. Mae'n rhaid cydymffurfio â gofynion diogelu mewn ffordd briodol waeth beth yw oedran yr unigolyn.
- Dylai llety ar gyfer cleifion preswyl fod yn addas i'r oedran ar gyfer gofal meddygol a llawfeddygol, ymchwiliadau, therapïau, anaestheteg, gofal dwys, gofal mamolaeth neu fathau eraill o ofal iechyd arbenigol.
- Mae'n bosibl y bydd angen sgiliau ychwanegol ar glinigwyr i ofalu am berson ifanc hyd at 25 oed ym meysydd arbenigol pediatreg neu oedolion. Mae'n rhaid i glinigwyr weithio oddi mewn i ffiniau eu harbenigedd, ond mae'n rhaid iddynt sefydlu dulliau o ymgynghori â chydweithwyr yn y tymor byr. Yn fwy hirdymor, mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr Clinigol ymgynghori â chlinigwyr i nodi bylchau mewn sgiliau, gan ddatblygu strategaethau addysgol i bontio unrhyw fylchau. Bydd Cyfarwyddwyr Meddygol yn gyfrifol am oruchwylio'r holl wasanaeth.
- Mae'n rhaid i'r holl glinigwyr fod â sgiliau a chymwyseddau diogelu sy'n briodol i natur eu cyflogaeth. Mae gwiriadau cyflogaeth (DBS) yn ymwneud â gofynion ar gyfer rheoli plant ac oedolion mewn perygl (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014) yn ofyniad cyflogaeth cyffredinol GIG Cymru.
- Dylai trefniadau llywodraethu cadarn fod ar waith er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi yn ddiogel, gan gynnwys rhagnodi meddyginiaethau nad ydynt wedi'u cymeradwyo.

## 8 Timau Gofal Sylfaenol ac Ymarferwyr Cyffredinol

8.1 Dylai meddyg teulu'r person ifanc gymryd rhan briodol yn y gwaith o gynllunio neu drosglwyddo gofal, yn enwedig os yw'r cynllun yn cynnwys rhyddhau unigolyn o ofal eilaidd yn ôl i wasanaethau gofal sylfaenol.

8.2 Mae'n bosibl mai'r clinigwr Gofal Sylfaenol yw'r gweithiwr penodol ar gyfer pobl ifanc â chyflyrau cronig fel asthma neu epilepsi. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo gynnwys argymhellion priodol ar gyfer camau dilynol yn y dyfodol, ymchwiliadau, cyngor cyn cenhedlu, neu atgyfeirio i wasanaethau eraill gan gynnwys grwpiau cymorth i gleifion.

8.3 Dylai clystyrau gofal sylfaenol ddatblygu a chydgysylltu gweithwyr penodol ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd trwy gyfnod o gynllunio pontio a throsglwyddo.

## 9 Gweithio gydag asiantaethau eraill

9.1 Gall nifer o weithwyr proffesiynol, arbenigeddau ac asiantaethau gyfrannu at Bontio a Throsglwyddo gofal ar gyfer pobl ifanc ag anghenion lluosog neu gyflyrau cymhleth. Bydd dull cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau yn sicrhau gofal effeithiol ar gyfer y person ifanc, cyfathrebu da, ac ymgysylltiad a dilyniant o ran gofal, gan sicrhau bod staff yn deall rolau a chyfrifoldebau.

9.2 Mae angen i asiantaethau gytuno pwy fydd y gweithiwr penodol ar gyfer y person ifanc er mwyn helpu i gydgysylltu trosglwyddiadau ar draws nifer o wasanaethau.

9.3 Yn ystod y cyfnod pontio a throsglwyddo, dylai'r gwasanaethau cymorth fod yn seiliedig ar gryfderau a chanolbwyntio ar anghenion a dymuniadau'r person ifanc.

9.4 Dylai eiriolaeth a chymorth gofal iechyd fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc.

9.5 Disgwylir i wasanaethau gydweithio ac ymgysylltu ag unrhyw sefydliad y mae'r plentyn / person ifanc yn ymwneud ag ef. Hefyd, disgwylir iddynt fodloni safonau diogelu a sicrhau bod canllawiau clir ar rannu gwybodaeth ar waith.

9.6 Mae datblygu cydnerthedd yn rhan bwysig o ofal parhaus ar gyfer pobl ifanc. Dylai gwybodaeth fod ar gael am sut y gallant dderbyn cymorth i ddatblygu a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol a hamdden.

## 10 Mesurau a argymhellir i fonitro ac adrodd ar ansawdd gwasanaethau a boddhad defnyddwyr:

10.1 Mae gan fyrddau iechyd ddull o gasglu barn pobl ifanc/teuluoedd/gofalwyr am y broses ar ôl 6 mis a 12 mis er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. (Coladu ffurflenni boddhad a naratif/cwynion neu bryderon).

10.2 Mae gan fyrddau iechyd drefniadau ar gyfer adolygu trefniadau pontio a throsglwyddo bob blwyddyn er mwyn dysgu gwersi a rhannu arferion da. (Adroddiad blynyddol 1 a 2 uchod).

10.3 Mae byrddau iechyd yn monitro'r gwaith o gyflwyno'r canllawiau ar bontio a throsglwyddo trwy ddefnyddio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau archwilio cenedlaethol cydnabyddedig. Hefyd, maent yn adolygu strwythurau, prosesau a chanlyniadau ar ôl 2 flynedd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben o hyd a bod canlyniadau allweddol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau wedi'u cyflawni.

10.4 Bydd arweinydd Pontio a Throsglwyddo (Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Cyfarwyddwr Nyrsio neu Gyfarwyddwr Therapïau) y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth yn gwneud y canlynol:

- hyrwyddo gofynion y canllawiau hyn a rhannu ymarfer arloesol a llwyddiannus yn ehangach;
- hyrwyddo'r broses o weithredu'r canllawiau yn effeithiol ledled y sefydliad
- sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu gweithredu yn effeithiol yn y maes gwasanaeth perthnasol, a cheisio sicrhau gwelliant parhaus;
- adrodd i'r Bwrdd Gweithredol ar y broses o weithredu'r canllawiau hyn;
- gweithredu fel ffynhonnell cyngor i staff clinigol a staff eraill ar weithredu'r canllawiau.

10.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r trefniadau hyn ddwy flynedd ar ôl eu cyflwyno er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb ledled Cymru.

## 11 Datrys anghydfodau

11.1 Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth fod â system sylwadau a chwynion ymatebol ar waith er mwyn monitro a datrys unrhyw broblemau mewn amser real, gan gynnwys pryderon am amseroedd aros hir neu oedi clinigol.

11.2 Mae'n rhaid i'r person ifanc a'i ofalwyr gael mynediad at wybodaeth a chymorth, gan gynnwys cymorth eiriolaeth a chymorth i ddefnyddio Gweithio i Wella i godi pryderon os oes angen.

# Atodiad 1

## Fframwaith Strategol a Deddfwriaethol

1. Cefnogir y canllawiau hyn gan fframwaith strategol a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[8] (CCUHP) yw'r sylfaen ar gyfer holl waith Llywodraeth Cymru gyda phlant a phobl ifanc, gyda'r Saith Amcan Craidd ar gyfer datblygu polisi ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried hawliau plant a nodir yn CCUHP. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn nodi'r trefniadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r ddyletswydd a rhoi sylw dyledus i hawliau plant wrth arfer unrhyw swyddogaethau.

2. Mae'r safonau cyfranogi yn nodi saith pwnc allweddol y dylai gweithwyr o bob math fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru, sef:-
   • Gwybodaeth – mae'n rhaid i blant a phobl ifanc allu deall gwybodaeth yn hawdd a gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth
   • Dewis – mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i ddewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt
   • Dim Gwahaniaethu – mae pob plentyn a pherson ifanc yn wahanol ac mae ganddynt yr hawl i gael eu trin yn deg
   • Parch – mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i leisio barn. Mae eu safbwyntiau yn bwysig ac mae'n rhaid parchu eu safbwyntiau
   • Bydd plant a phobl ifanc ar eu hennill – mae ganddynt yr hawl i ddysgu a bod y gorau y gallant fod
   • Adborth – mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i wybod pa wahaniaeth y mae eu cyfranogiad wedi'i wneud
   • Gweithio'n well – dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i'w holl waith.

3. Mae'r safonau wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac maent yn seiliedig ar CCUHP a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n sicrhau mai cyfranogiad plant sy'n ganolog i wella eu llesiant. Mae'r safonau wedi'u haddasu i'w gwneud yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc anabl o dan y teitl *Bod â Llais, Bod â Dewis.*

4. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.
   Yn y Confensiwn, nid yw pobl anabl yn cael eu hystyried yn wrthrychau cardod, ond yn wrthrychau â hawliau sy'n gallu mynnu'r hawliau hynny a gwneud penderfyniadau ar gyfer eu bywydau ar sail eu cydsyniad rhydd a gwybodus. Hefyd, maent yn aelodau gweithredol o gymdeithas.

[8] https://llyw.cymru/plant-theuluoedd?_ga=2.216991443.418837989.1579081870-1471361957.1563188408

5. Symud Cymru Ymlaen[9] (2016-2021) yw cynllun pum mlynedd Llywodraeth Cymru i hybu gwelliannau yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan ddatblygu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol ac yn dysgu, ac unedig a chysylltiedig.

6. Mae cynlluniau darparu gofal iechyd yn fframwaith strategol ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer 9 cyflwr difrifol neu faes gwasanaethau clinigol (diabetes, canser, gofal diwedd oes, clefyd y galon, strôc, gofal critigol, clefydau anadlol, clefyd yr afu, niwroleg). Mae pob un o'r cynlluniau yn cynnwys elfen o ofal sy'n berthnasol i blant.

7. Law yn Llaw at Iechyd Meddwl[10] (2012) yw strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl o bob oed, a'i nod yw gwella gwasanaethau a chanlyniadau iechyd meddwl. Mae'n amlygu profiadau defnyddwyr gwasanaethau gan nodi bod gofal a thriniaeth yn gallu methu wrth bontio rhwng gwasanaethau. Mae'n datgan y dylai trosglwyddiadau rhwng gwasanaethau fod yn seiliedig ar angen ac nid ar ffiniau oedran artiffisial, ac mae'n canolbwyntio ar sut i wella bywydau defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd trwy ddefnyddio dull adfer a galluogi.

8. Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Chod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru[11] (2016) yn cyflwyno'r dyletswyddau ac yn darparu canllawiau ar gyfer ymarferwyr meddygol, clinigwyr, rheolwyr a staff ysbytai, ysbytai a chartrefi gofal annibynnol, eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol wedi'u cymeradwyo ar sut y dylent fynd ati i arfer eu swyddogaethau a'u dyletswyddau o dan y Ddeddf. Hefyd, mae'n darparu canllawiau i feddygon a gweithwyr proffesiynol eraill ar elfennau penodol o driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol yn fwy cyffredinol.

9. Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru)[12] (2010) yn gosod dyletswyddau cyfreithiol ar fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn ymwneud ag asesu a thrin problemau iechyd meddwl. Yn benodol, mae'n sicrhau bod gofal ar gael ledled Cymru sy'n canolbwyntio ar anghenion iechyd meddwl pobl trwy sicrhau bod Cynllun Gofal a Thriniaeth yn cael ei lunio ar gyfer pob claf sy'n derbyn gwasanaethau eilaidd.

10. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)[13] (2014) yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae integreiddio yn ganolog i'r Ddeddf, ac mae'n berthnasol i GIG Cymru a sut y mae'n darparu gwasanaethau.

11. Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[14] (2015) i rym ym mis Ebrill 2016 a'i nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gorfodi cyrff cyhoeddus i feddwl mwy am yr hirdymor,

[9] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf
[10] https://llyw.cymru/law-yn-llaw-iechyd-meddwl-cynllun-cyflawni-2019-i-2022
[11] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/deddf-iechyd-meddwl-1983-cod-ymarfer-deddf-iechyd-meddwl-1983-cymru--diwygiedig-2016.pdf
[12] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/the-mental-health-wales-measure-2010.pdf
[13] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_mi.pdf
[14] https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau?_ga=2.128942219.620227093.1578482996-390671120.1578482996

gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio osgoi problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

12. Hefyd, mae angen i fyrddau iechyd ystyried sut mae eu systemau TG yn cynorthwyo'r broses o rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

# Atodiad 2

## Siart Llif Pontio a Throsglwyddo

Y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth i nodi **arweinydd Pontio a Throsglwyddo penodol** sy'n gyfrifol am sicrhau bod y canllawiau ar bontio a throsglwyddo yn cael eu gweithredu ledled y gwasanaethau sylfaenol ac eilaidd.

Y Bwrdd Iechyd i fonitro'r broses o weithredu'r canllawiau ar bontio a throsglwyddo, a chwblhau adolygiad o strwythurau, prosesau a chanlyniadau ar ôl dwy flynedd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben o hyd a bod canlyniadau allweddol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau wedi'u cyflawni.

**Cyn gynted â phosibl** – Cynnig cymorth ar gyfer hunanreoli cyflwr/cyflyrau'r person ifanc; hyrwyddo dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; grymuso pobl ifanc i reoli eu cyflwr a darparu'r sylfaen iddynt symud i wasanaethau oedolion.

↓

**13 – 14 oed** – Nodi pobl ifanc sydd angen cymorth i bontio a throsglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

↓

Neilltuo **Gweithiwr penodol** ar gyfer y person ifanc a fydd yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda'r person ifanc, ei deulu a gwasanaethau i gydgysylltu cynlluniau a gwasanaethau yn ystod cyfnod o drosglwyddo atebolrwydd clinigol ar gyfer gofal.
- Hyrwyddo dymuniadau a safbwyntiau'r person ifanc er mwyn sicrhau bod ganddo ef a'i deulu fynediad priodol i'r holl wasanaethau sylfaenol ac eilaidd gofynnol, a gwasanaethau gofal iechyd eraill.
- Cynorthwyo'r person ifanc i ddefnyddio a chydgysylltu gwasanaethau cymunedol, rhyngasiantaethol a thrydydd sector eraill.
- Cydweithio â gwasanaethau eraill y tu allan i'r maes Iechyd fel sy'n ofynnol (gan gynnwys gofal cymdeithasol, addysg, a gwasanaethau ieuenctid).

Sicrhau bod y person ifanc yn cael cyfle i fynychu **cyfarfodydd priodol** gyda'r gweithiwr penodol er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Mae Cynllun Pontio a Throsglwyddo yn cael ei gydgynhyrchu ar gyfer y cyfnod pontio a throsglwyddo gofal gan ddefnyddio adnoddau fel 'Un dau tri, i ffwrdd â ni'. Mae'r person ifanc yn cadw'r cynllun hwn, sy'n nodi beth sy'n bwysig iddo, y gofal a'r driniaeth ofynnol, yr amserlen a'r canlyniadau iechyd a llesiant disgwyliedig.
- Dylai'r person ifanc a'i deulu dderbyn gwybodaeth am ei gyflwr a'r cynllun gofal mewn ffordd hawdd i'w ddeall.
- Dylai'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo gael ei gysylltu neu ei integreiddio gyda chynlluniau gofal eraill (e.e. IDP, Cynllun Gofal Parhaus, Cynllun Gofal a Thriniaeth, Cynllun Gofal a Chymorth). Dylai'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo gael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau priodol.

↓

**Caniatáu i gynlluniau gael eu gweithredu rhwng 16 a 18 oed** – Adolygiad ar y cyd o'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo gan wasanaethau plant a gwasanaethau oedolion

Mae'r gweithiwr penodol yn cynnal **'cyfarfod adolygu'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo'** cyn pen-blwydd y person ifanc yn 16 oed fel bod modd rhoi cynlluniau ar waith rhwng 16 a 18 oed yn unol â'r cytundeb.

- Mae'n nodi anghenion a dymuniadau iechyd, unrhyw faterion cyfreithiol, cymhwysedd a ffiniau gwasanaethau a allai effeithio ar ansawdd neu fynediad i ofal iechyd, ac unrhyw effaith ar ganlyniadau iechyd y person ifanc.
- Bydd mynychwyr y cyfarfod yn cynnwys y person ifanc, ei deulu, ei eiriolwr, holl weithwyr proffesiynol maes Gofal Sylfaenol, gwasanaethau pediatrig a gwasanaethau meddygol, nyrsio a therapi i oedolion, ac unigolion arwyddocaol eraill.
- Mae'n cytuno bod y Cynllun Pontio a Throsglwyddo yn briodol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn diwallu anghenion y person ifanc ac yn bodloni ei ddymuniadau a'i fudd pennaf.
- Mae'n nodi ac yn cofnodi cyfrifoldebau clinigol parhaus y gwasanaethau perthnasol ar gyfer gofal, amseriad a natur trosglwyddiad clinigol (e.e. arweinydd clinigol, angen am glinigau ar y cyd, atgyfeirio i wasanaethau ychwanegol, amseru a throsglwyddo ac ati).
- Ar ôl i'r person ifanc, ei deulu, yr holl glinigwyr a phartïon perthnasol eraill gytuno ar y Cynllun Pontio a Throsglwyddo, mae'n cael ei gofnodi'n ffurfiol yn y cofnod meddygol.
- Mae'r gweithiwr penodol yn cefnogi'r person ifanc trwy'r apwyntiad cyntaf gyda'r clinigwr atebol newydd. Gallai hyn gynnwys yr angen i ymweld â chanolfan newydd fel bod y person ifanc/ei deulu/ei ofalwr yn gallu cyfarfod â'r tîm newydd. Mae'n rhoi gwybodaeth am gyfleusterau i gleifion preswyl a chleifion allanol/a nyrsys arbenigol fel sy'n briodol i'r cyflwr ac i anghenion unigol.
- Bydd crynodeb clinigol yn cael ei ddarparu ar gyfer y person ifanc, y meddyg teulu a'r clinigwr atebol newydd cyn y cyfarfod cyntaf fel rhan o'r broses drosglwyddo.

↓

**Trosglwyddiad atebolrwydd clinigol wedi'i gwblhau**

↓

- Y gweithiwr penodol yn trefnu trafodaeth ddilynol gyda'r person ifanc/ei deulu/ei ofalwr o fewn 3 mis i gwblhau'r trosglwyddiad.
- Byrddau Iechyd i gyflwyno dull o gasglu barn y person ifanc/ei deulu/ei ofalwr am y broses ar ôl 6 mis a 12 mis i helpu i lywio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.
- System sylwadau a chwynion ymatebol ar waith i ddatrys a monitro unrhyw broblemau mewn amser real gan gynnwys amseroedd aros hir neu oedi clinigol.

## Atodiad 3

**Pasbort Pontio a Throsglwyddo Person Ifanc**

***Cofiwch barchu natur breifat a chyfrinachol y ddogfen hon***

**Gwybodaeth amdanaf i…**

<table>
<tr><td colspan="2">Fy anghenion iechyd a dymuniadau allweddol ar gyfer fy Nghynllun Pontio a Throsglwyddo:<br>(Mae angen cynnwys diagnosis, llunio, triniaeth, therapïau a chlinigwyr presennol)</td></tr>
<tr><td>Beth rydych chi’n ei hoffi:<br>(Beth sy’n gweithio’n dda)</td><td>Beth nad ydych chi’n ei hoffi:<br>(Mae angen cynnwys trigeri)</td></tr>
<tr><td>Cryfderau:</td><td>Heriau:</td></tr>
</table>

**Creadigol, Llawn Mynegiant, Fi…**
**(Pethau sy'n dda ac rwy'n eu mwynhau yn fy mywyd)**

**Gwybodaeth amdanaf i…**
**(Beth rwyf am i chi ei wybod amdanaf i)**

| | |
|---|---|
| **Corfforol**<br>**(Bod yn iach ac yn egnïol, diwallu fy anghenion sylfaenol, tai, arian, fy nghyfrifoldebau ac ati)** | **Pethau rwy'n eu gwneud yn dda**<br>**(Cryfderau)**<br><br>**Nodau**<br>**(Beth sydd angen i mi ei wneud)**<br><br>**Pwy sy'n gallu fy helpu**<br><br>**Sut**<br><br>**Erbyn Pryd** |

| | |
|---|---|
| **Emosiynol**<br>**(Fy mherthynas ag eraill – sut rwy'n meddwl am bethau/pobl)** | **Pethau rwy'n eu gwneud yn dda**<br>**(Cryfderau)**<br><br>**Nodau**<br>**(Beth sydd angen i mi ei wneud)**<br><br>**Pwy sy'n gallu fy helpu**<br><br>**Sut**<br><br>**Erbyn Pryd** |

| | |
|---|---|
| **Cymdeithasol (Y pethau rwy'n eu gwneud a'r llefydd rwy'n mynd iddyn nhw)** | **Pethau rwy'n eu gwneud yn dda (Cryfderau)**<br><br>**Nodau (Beth sydd angen i mi ei wneud)**<br><br>**Pwy sy'n gallu fy helpu**<br><br>**Sut**<br><br>**Erbyn Pryd** |


| | |
|---|---|
| **Bod yn gynhyrchiol (Gwaith, addysg, hyfforddi, gwirfoddoli ac ati)** | **Pethau rwy'n eu gwneud yn dda (Cryfderau)**<br><br>**Nodau (Beth sydd angen i mi ei wneud)**<br><br>**Pwy sy'n gallu fy helpu**<br><br>**Sut**<br><br>**Erbyn Pryd** |

**Pobl sy'n rhan o fy mywyd…**

**(Dylech restru pobl gadarnhaol a chefnogol ac unrhyw bobl eraill nad ydynt yn gefnogol ond sy'n berthnasol i'ch bywyd, neu sydd wedi bod yn berthnasol i'ch bywyd)**

| Pwy ydyn nhw | Perthynas | Beth maen nhw'n ei wneud i mi |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**Eco Fap**



Os ydych chi yn y canol, defnyddiwch yr eco fap i nodi ble mae pobl eraill wedi’u lleoli o’ch cwmpas, gan ddangos pwy sy’n rhoi’r cymorth mwyaf i chi a phwysigrwydd pobl i chi o safbwynt eich adferiad/llesiant.

Hefyd, gellir defnyddio’r ymarferiad hwn i archwilio newidiadau i’ch perthynas ag eraill ac i fesur ac adolygu cynnydd os yw’n cael ei adolygu mewn sesiynau diweddarach.

**Cynllun Pontio a Throsglwyddo**

**Fy nymuniadau ar gyfer fy nyfodol…**

| Pethau nad wyf eisiau eu newid | Pethau rwyf eisiau eu newid | Pwy sy'n gallu helpu | Sut allaf fy helpu fy hun | Erbyn Pryd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

# Canllawiau ar apwyntiadau

Fe aeth pobl ifanc ati i drafod eu hanawsterau yn ystod apwyntiadau ac ymgyngoriadau. Fe wnaethant gyfeirio at ofn, rheoli disgwyliadau ac awydd i wybod mwy am waith gweithwyr proffesiynol. Gall gweithwyr proffesiynol ddefnyddio'r tudalennau hyn i'w cyflwyno eu hunain i bobl ifanc a nodi'r gwasanaeth/ymyrraeth benodol a gynigir ganddynt. Gellir cwblhau'r tudalennau cyn yr apwyntiad neu gyda'r person ifanc fel ffordd o drafod y triniaethau gwahanol sydd ar gael. Ceir dalen cadarnhau cydsyniad ar waelod pob manylyn cyswllt y gellir ei gwirio os yw'r person ifanc am i'w wybodaeth gael ei rhannu gydag unrhyw unigolyn neu dîm arall at ddibenion cymorth neu ymyrraeth bellach. Mae hyn yn osgoi'r angen i'r person ifanc ailadrodd ei stori.

Gweithwyr Proffesiynol – Atebwch y canlynol

| Pwy ydych chi | Sut y byddwch yn helpu | Eich manylion cyswllt | Pa mor aml byddaf yn eich gweld |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| Beth fyddaf yn ei gyflawni o'r apwyntiad hwn | A oes unrhyw beth wedi gwella / gwaethygu | A ydw i'n hapus â'r driniaeth? A oes angen cymorth ychwanegol arnaf? | Beth sy'n digwydd nesaf? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Crynodeb o'r Apwyntiad

| Dyddiad | Math o Gyfarfod | Gyda | Ble | Gwybodaeth/Camau Gweithredu/Canlyniad | Dyddiad yr Apwyntiad Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

**Atodiad 4**

**Adnoddau defnyddiol**

Mae’r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn helpu sefydliadau ac unigolion i sicrhau safon y broses, ansawdd a phrofiad pob math o waith yn ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc:

http://www.plantyngnghymru.org.uk/ein-gwaith/cyfranogiad/safonau-cyfranogiad/

Cefnogi pobl ifanc â chyflyrau sy’n cyfyngu ar fywyd a lle mae bywyd yn y fantol i droi’n oedolion.

Together for Short Lives, “Stepping Up – a guide to enabling a good transition to adulthood for young people with life-limiting and life-threatening conditions”

https://www.togetherforshortlives.org.uk/resource/transition-adult-services-pathway/https://www.togetherforshortlives.org.uk/resource/transition-adult-services-pathway/